Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	22 Tachwedd 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Barry Mellor / Emlyn Jones
Awdur yr adroddiad	Mike Jones
Teitl	Cynllun Cludiant Cynaliadwy Drafft

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am Gynllun Cludiant Cynaliadwy Drafft Cyngor Sir Ddinbych. Mae'n cynnwys y rhesymau dros lunio Cynllun Cludiant Cynaliadwy, sut y cafodd ei lunio, cynnwys y Cynllun, a manylion ynghylch ymgysylltu sydd i ddod ar y Cynllun.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi cyfle i'r Cabinet adolygu cynnwys y cynllun drafft a darparu sylwadau, cyn llunio fersiwn derfynol o'r Cynllun Cludiant Cynaliadwy Drafft, a gyflwynir fel rhan o ymgysylltiad cyhoeddus sydd i ddod yn gynnar yn 2023.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn nodi cynnwys y Cynllun Cludiant Cynaliadwy Drafft, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A yr adroddiad hwn. Bod y Cabinet yn darparu sylwadau ac argymhellion i gefnogi'r gwaith o baratoi drafft terfynol y Cynllun Cludiant Cynaliadwy ar gyfer yr ymgysylltiad cyhoeddus sydd i ddod ar y Cynllun.

3.2. Bod y Cabinet yn nodi, yn dilyn yr ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd, ac unrhyw newidiadau a allai ddeillio o hynny, y cyflwynir fersiwn derfynol y Cynllun Cludiant Cynaliadwy i'w drafod a'i gymeradwyo gan y Cabinet tua chanol 2023.

3.3. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les yn Atodiad B fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

Cyflwyniad

4.1 Yn 2019, pasiodd y Cyngor gynnig i ddatgan argyfwng newid hinsawdd ac ecolegol.

4.2 Mae Cynllun Corfforaethol newydd 2022 yn cynnwys nifer o amcanion allweddol sy'n ymwneud â chludiant ac yn benodol ffyrdd cynaliadwy o gludiant. Dyma'r amcanion allweddol: "Sir Ddinbych mwy gwyrdd", "Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well", "Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar" a 'Sir Ddinbych Ffyniannus".

4.3 Deilliodd y syniad o lunio Cynllun Cludiant Cynaliadwy o brosiect cynharach a oedd wedi bod yn rhan o Gynllun Corfforaethol blaenorol, dan y teitl "Galluogi pobl i deithio i'r gwaith, addysg a gwasanaethau yn well". Oherwydd rhai problemau gyda chwmpas y prosiect blaenorol ac yn dilyn trafodaethau yn y Bwrdd Rhaglen Gorfforaethol ym mis Gorffennaf 2021, penderfynwyd dod â'r prosiect blaenorol i ben a chanolbwyntio yn hytrach ar lunio Cynllun Cludiant Cynaliadwy.

4.4 Nid yw llunio Cynllun Cludiant Cynaliadwy yn ofyniad statudol, ond mae wedi'i seilio ar fathau tebyg o gynlluniau y mae awdurdodau lleol eraill wedi'u llunio. Er enghraifft, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi llunio *Cynllun Symudedd Trefol Cynaliadwy*. Rydym ni wedi dewis y teitl "Cynllun Cludiant Cynaliadwy" er mwyn adlewyrchu na fydd ein Cynllun yn canolbwyntio ar ardaloedd trefol yn unig.

4.5 Datblygwyd y Cynllun gan swyddogion o nifer o wasanaethau gwahanol yn y Cyngor, er mwyn adlewyrchu natur drawsbynciol cludiant.

Pwrpas y Cynllun

4.6 Fel Cyngor, rydym wedi dechrau ar raglen waith fawr, gyda'r nod o sicrhau bod y Cyngor yn dod yn gyngor di-garbon net ac yn gyngor ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Goruchwylir y rhaglen hon gan Fwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd ac

Ecolegol y Cyngor. Mae rhai o'r prosiectau sy'n ymwneud â chludiant ac sydd eisoes ar y gweill yn cynnwys amnewid cerbydau fflyd tanwydd ffosil CSDd am Gerbydau Trydan cyfatebol a darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn swyddfeydd a safleoedd y Cyngor.

4.7 Mae cwmpas y Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol yn anorfod eang ac mae'n cwmpasu llawer mwy na chludiant yn unig. Mae'n cynnwys prosiectau i leihau allyriadau carbon o asedau eraill sy'n eiddo i'r Cyngor, prosiectau i leihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi, prosiectau i amsugno a storio carbon atmosfferig (secwestru) a phrosiectau i amddiffyn a gwella ein hecoleg leol.

4.8 Mae'r rhaglen Newid Hinsawdd yn ymwneud ag allyriadau carbon sy'n deillio o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae gennym hefyd ddyletswyddau pwysig fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Awdurdod Priffyrdd Lleol i weithredu prosiectau a pholisïau sy'n annog gwell defnydd o ddulliau cynaliadwy o gludiant, fel dewis amgen i ddulliau sy'n llygru mwy.

4.9 Mae'r Cynllun Cludiant Cynaliadwy Drafft yn rhestru'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â chludiant mewn un lle. Mewn geiriau eraill, mae'n cynnwys y gweithgareddau hynny sy'n ymwneud â chludiant yr ydym yn ymgymryd â hwy trwy ein rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol, ond mae hefyd yn cynnwys y prosiectau a'r polisïau hynny yr ydym yn ymgymryd â hwy er mwyn annog ein preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr i deithio'n fwy cynaliadwy.

4.10 Bydd y Cynllun Cludiant Cynaliadwy yn ffordd effeithiol o fanylu ar y gweithgareddau hynny sy'n ymwneud â chludiant mewn un lle a bydd hefyd yn helpu i adnabod unrhyw fylchau posibl yn yr hyn a wnawn. Bydd hyn yn golygu nifer o fanteision:

- Mae'n ein galluogi ni i ddweud yn hawdd wrth ein preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr beth ydym ni'n ei wneud fel Cyngor i annog teithio mwy gwyrdd.
- Mae'n cynnwys y dull *Un Cyngor,* ac er bod gwasanaethau gwahanol yn cyflwyno tasgau amrywiol, fe ellir eu cydlynu a'u cyflawni'n effeithiol.
- Gall helpu i gefnogi ceisiadau ariannu mewn meysydd penodol drwy helpu i arddangos y darlun mwy a'r dull cydgysylltiedig y mae'r Cyngor yn ei gymryd.

Strwythur y Cynllun Cludiant Cynaliadwy

4.11 Mae'r Cynllun Cludiant Cynaliadwy Drafft wedi'i gynnwys yn Atodiad A yr adroddiad hwn. Bydd y Cynllun yn ddwyieithog. Er y bydd yn cael ei gyhoeddi'n bennaf fel dogfen PDF, cynhyrchir nifer cyfyngedig o gopïau caled a bydd yn cael ei hargraffu fel "dogfen gildroadwy" gyda'r Gymraeg ar un ochr a'r Saesneg ar y llall.

4.12 Er mwyn cyd-fynd â Strategaeth Cludiant Cymru, "Llwybr Newydd", mae gan y Cynllun Cludiant Cynaliadwy weledigaeth 20 mlynedd ynghyd â blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Y bwriad yw y byddai set arall o flaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd wedi hynny yn cymryd lle'r blaenoriaethau hyn e.e. o Flwyddyn 6 ymlaen. Rhoi digon o amser i ddatblygu ac ymgysylltu o ran y set nesaf o flaenoriaethau, byddai'r rhain yn dechrau cael eu datblygu o Flwyddyn 4 y Cynllun Cludiant Cynaliadwy ymlaen.

4.13 Mae'r blaenoriaethau hyn ar gyfer cynyddu'r defnydd o deithio llesol ar gyfer siwrneiau bob dydd; cynyddu'r defnydd o gludiant teithwyr ar gyfer siwrneiau bob dydd; cynyddu'r nifer o bwyntiau gwefru cerbydau sydd ar gael ar draws Sir Ddinbych; cynyddu'r dewisiadau teithio ar gyfer ein preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr; a lleihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chludiant sy'n deillio o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor (gan Gyngor Sir Ddinbych).

4.14 Mae Atodiad C yn dangos ymgysylltiad arfaethedig y Cynllun yn gynnar yn 2023.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd y Cynllun Cludiant Cynaliadwy o gymorth gyda chyflawni ein hamcanion allweddol o ran Sir Ddinbych mwy gwyrdd; Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well, Sir Ddinbych ofalgar; a Sir Ddinbych ffyniannus.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r gost o lunio Cynllun Cludiant Cynaliadwy wedi'i fodloni o fewn cyllideb refeniw Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd.

6.2. Mae llawer o'r prosiectau sydd wedi'u rhestru yn y Cynllun yn brosiectau isadeiledd, sydd fel arfer angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol. Mae nifer o grantiau llywodraeth ganolog ar gael ar gyfer gweithredu'r prosiectau cludiant. Mae'r rhain fel arfer yn benodol ar gyfer rhai amcanion polisi. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig grantiau ar gyfer adeiladu llwybrau teithio llesol, gwella rhwydwaith priffyrdd ar gyfer cludiant cyhoeddus a gwella llwybrau cherdded a beicio i ysgolion. Yn yr un modd, mae llywodraeth y DU yn cynnig grantiau i dalu rhywfaint o'r costau sy'n gysylltiedig â gosod pwyntiau gwefru ar gyfer ceir trydanol. Yr un yw'r broses pan fyddwn ni'n gwneud cais am gyllid cyfalaf tuag at brosiectau ac mae'n ofynnol bod manylion pob cynllun yn cael eu cyflwyno ar ffurf achos busnes i'r Grŵp Buddsoddi Strategol er mwyn i bob cynllun gael ei drafod ar sail achos-wrth-achos.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae gan y Cynllun Cludiant Cynaliadwy nifer o effeithiau cadarnhaol posibl yn sgil y ffocws ar gynaliadwyedd a lleihau carbon. Mae rhai o'r ffrydiau gwaith wedi'u datblygu'n well nag eraill sy'n golygu bod angen diweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar Les wrth i'r ffrydiau gwaith yma gael eu datblygu ymhellach.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cyflwynwyd adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y Cynllun Cludiant Cynaliadwy drafft i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Tachwedd 2021.

8.2. Rhoddwyd cyflwyniad ar y Cynllun Cludiant Cynaliadwy drafft i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ym mis Mawrth 2022.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Croesawir bod y gwasanaeth wedi llunio'r cynllun o fewn adnoddau presennol y gwasanaeth. Dylid cydnabod, fodd bynnag, y risg y bydd cyllid o bob ffynhonnell yn fwy cyfyngedig yn y dyfodol oherwydd sefyllfa ariannol y sector cyhoeddus sy'n gwaethygu. Mae hyn yn cynnwys argaeledd cyllid allanol gan y DU neu Lywodraeth Cymru. Fel y nodwyd yn Adran 6, mae'n bwysig bod prosiectau yn y dyfodol yn dilyn y prosesau cymeradwyo cyfalaf diweddaraf.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â llunio Cynllun Cludiant Cynaliadwy yn isel ar yr amod bod y camau sydd wedi'u rhestru yn y Cynllun yn realistig ac yn gyraeddadwy. Y rheswm am hyn yw bod risg y gallai methiant i gyflawni'r camau a nodwyd greu rhywfaint o niwed i enw da.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae gennym ddyletswydd statudol i ehangu a gwella ein rhwydwaith teithio llesol o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.